Mae Gwenllian yn arlunydd, ddarlithydd yng ngholeg Celf Abertawe ac yn ymddiriodolydd yn Sefydliad Celf Josef Herman.

Josef Herman: Murlun *Miners* 1951

Ffigur 1 Herman (1951) *Miners*

Gwelais furlun Josef Herman o'r enw *Miners'*(1950-51) a beintiwyd ar gyfer Gŵyl Brydain, yn yr Arddangosfa *Gwrthdaro a noddfa* yn Oriel Gelf Glynn Vivian ar ei newydd wedd ar y pryd, yn 2017. Fe'i harddangoswyd mewn golau amgylchynol a oedd yn caniatáu i'r glowyr ddisgleirio o'r paentiad tywyll yn llenwi gofod yr oriel, roedd y ffordd hon o arddangos y paentiad yn ennyn teimlad o bron â gallu camu i'r peintiad i ymuno â'r glowyr, mwy na bywyd, yn gorffwys uwchben y ddaear ar ôl eu llafur caled yn y pyllau glo.

Ffigur. 2 Image of Children in gallery

Mae'r chwe glöwr yn llenwi'r paneli heb fawr o gyfeiriadau eraill yn y paentiad, ac eto rydym yn cael yr ymdeimlad bod y glowyr allan yn yr awyr agored yn y cyfnos wedi'u fframio gydag awgrym o'r dirwedd lofaol, y tomennu glo du ac amgylchedd llychlyd cymoedd de Cymru yn y cyfnod, ond nid yw Herman yn paentio'r dirwedd yn y paneli hyn yn llythrennol ac yn gadael i'n dychymyg ei weld. Yn ôl Peter Wakelin (2018) Ysgrifennodd David Bell curadur y Glynn Vivian am weledigaeth haniaethol Herman o'r gymuned lofaol, meddai nid yw'n dweud wrthym sut olwg sydd ar Ystradgynlais a'i phobl, ond allan o'i deimladau tuag at y lle a'i bobl mae'n creu byd newydd o ffurf a siâp a lliw a thôn. Rydym yn sicr yn cael ymdeimlad o 'weledigaeth haniaethol' Herman yn y Murlun hwn.

Mae'r paentiad yn canolbwyntio ar bum glöwr ar eu cwrcwd ac un yn sefyll, ar fflachiadau ysgafn ar rai wynebau a chipolwg ar fflach o liw o'u dillad y 'sgarff mauve a'r ffordd maen nhw'n ei wisgo' (Herman 1975 t. 03), ar ddwylo mawr y glowyr sy'n awgrymu llafur caled a gall rhywun bron ddychmygu eu sychder, craciau, creithiau â baw glo sy'n gysylltiedig â llafur y glöwr. Pan oeddwn i'n blentyn cefais fy magu mewn tref lofaol yn ne Cymru ac rwy'n cofio'r glowyr ar ôl eu cawodydd ffres ar ôl diwrnod o lafur yn dal i fod â gweddillion glo ar eu hwynebau, eu dillad a'u dwylo, Roedd y glo yn amlinellu eu llygaid yn edrych fel pe baent yn gwisgo colur du ac roedd y creithiau duon o doriadau wedi'u llenwi â glo yn addurno eu dwylo a'u hwynebau. Er nad yw Herman yn rhoi'r wybodaeth yma inni yn uniongyrchol mae yn awgrymiad, 'gweledigaeth haniaethol' (Wakelin 2018) yn y paentiad, roedd Herman fel arsylwadau fy mhlentyndod, yn gwybod am lafur y dynion hyn ac meddai, y glöwr yw dyn Ystradgynlais… ac yn gofeb byw o lafur (Herman 1975 t102). Mae'n ymddangos bod y glowyr yma'n gorffwys ar ôl llafur caled, mae cyfeillgarwch y glowyr yn amlwg yn y murlun hwn, ac yn ddiweddarach cyflwynir Herman (1975 t. 103) ei arsylwadau o'r glowyr o'i dyddiadur, maen nhw'n gwrando â chanolbwyntiad dwfn ac yn rhannu teimladau ac yn chwerthin ac yn llefain. Yn ddiddorol, paentiodd Herman un glöwr ym mhob panel, a tybed a oedd hyn er hwylustod i weithio yn ogystal ac wrth gwrs er hwylustod cludo, rwy'n siŵr y byddai Herman wedi dogfennu hyn yn un o'i nifer o gyfnodolion neu lythyrau.

Dywedodd Herman am y gwaith hwn "I think it is one of my key pictures and the most important one I did in Wales." (Archif Glynn Vivian dd.). Bellach mae llun y *Miners* yng nghasgliad parhaol Oriel Glynn Vivian.

Comisiynwyd murlun y *Miners* gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer Pafiliwn Minerals of the Island Pavilion yng ngŵyl Prydain a gynhaliwyd yn ystod haf 1951, chwe blynedd ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd, ac yn ôl y V&A (dd.) 'the Festival provided light-relief to 8.5 million people who visited the main Festival site on London's South Bank'.

Ffigur 3 a a b Herman, J. (1950). ‘Study for South Wales 1951 (1950) Tate Collection & Page of Notes for the 1951 Mural for the Festival of Britain.’

Comisiynwyd Herman hefyd gan Gyngor y Celfyddydau i baentio ail baentiad ar gyfer Gŵyl Prydain, a elwid South Wales. Roedd hwn hefyd yn baentiad olew mawr iawn ar fwrdd yn mesur 61½ modfedd x 142½ modfedd (156 x 360cm)
Yn y ffotograff a briodolir i Llew E Morgan welwn Herman yn gweithio yn ei stiwdio yn Ystradgynlais y tu ôl iddo mae llawer o baentiadau ac ar yr îsl mae'r paentiad South Wales yn ogystal ag astudiaeth lai ar gyfer y paentiad hwn ar y llawr. Gweithiwyd ar y paentiad hwn yn yr un cyfnod â murlun y *Miners* ac mae'r ddau löwr ar eu cwrcwd ar ochr dde'r paentiad yn wedi eu paentio mewn modd tebyg iawn i'r ddau löwr canolog ym murlun y Mers, gan ffurfio cysylltiad uniongyrchol, yn fy marn i, o'r ddau baentiad. Arddangoswyd y Paentiad *South Wales* yn arddangosfa *60 Paintings for ’51* Gŵyl Prydain. (Fulltable.com. 2021) yn ôl Philip James yn rhagair y catalog “the paintings will be exhibited in London and the Provinces” mae'n debyg bod y paentiad Herman *South Wales* wedi cael ei arddangos yn Roland, Browse a Delblanco, [*sic*] Llundain, gyda William Nicholson(Flowers Gallery dd.).



Ffigur 4. Herman, (c.1951) *Study for 'South Wales' (Notes from a Welsh Diary)*

Yn ddiddorol mewn perthynas â llun *South Wales* ysgrifennodd Herman ar astudiaeth baratoadol ar gyfer *South Wales (Notes from a Welsh Diary)* (c.1951) sydd bellach yn Archif Tate (dd.)

> This was a study for the large painting I did in 1951 for the Arts Council Exhibition '60 Paintings'. The painting was called 'South Wales'. It was destroyed by the rain coming into the studio while I was abroad. Two fragments were saved. The right hand Miner, at present in the Port Elizabeth Museum, S.Africa and the 'Mother and Child' at present in a private coll[*ection*] in Canada.

Ffigur 5 Herman yn y studio attributed to Llew E Morgan (c.1950-51)

David Bell who 1951 he became Curator of the Glynn Vivian Art Gallery, was a friend and mentor to Herman. Whilst Assistant Director of the Welsh Committee of the Arts Council (Biography.wales. 2021) Bell visited Herman at his studio in Ystradgynlais during the autumn of 1950 while he was painting the panels and offered his advice on the piece. David Bell, who championed the artist through his role at the Arts Council for Wales helped Herman to gain recognition, giving him opportunities to exhibit including these paintings at the Festival of Britain (JHAFC- 1. 2021).

Arddangoswyd murlun *Miners* sawl gwaith yn y blynyddoedd yn dilyn Gŵyl Prydain nes iddo ddod o hyd i gartref parhaol yn Oriel Gelf Glynn Vivian. Ymgysylltodd Herman â Choleg Celf Abertawe i baratoi'r byrddau gyda hesian a geso ar gyfer y Murlun 'for this laborious undertaking (*Herman*) decided to engage the help of several willing students from Swansea School of Art' (Herman, N. 1996 p.104), ym 1992 enillodd Herman 'Medal Arian am Wasanaethau i'r Celfyddydau' yng Nghaerdydd (British Museum dd.) roedd y murlun wedi'i storio mewn "dismantled state in the Swansea School of Art" a chyn cael ei chymryd allan a'i roi "on view in Cardiff students from Swansea School of Art had performed a splendid job of cleaning and minor restoration. After four decades, it showed no sign of wear and tear" (Herman N. 1996 p.105) roedd Herman wrth ei fodd â hyn ac roedd yn falch iawn i gwrdd gyda'r myfyrwyr a oedd wedi paratoi'r Murlun ar gyfer yr arddangosfa hon. Roedd digwyddiad cyflwyno'r Fedal Arian yng Nghaerdydd yn ddigwyddiad mawr a daeth cyfeillion ac edmygwyr ynghyd o bob cornel o Gymru. Roedd glowyr o Ystradgynlais wedi teithio i fyny i gwrdd â Joe-bach (Herman N. 1996) (Fel y'i galwyd yn annwyl ganddynt). Mae'r digwyddiad hwn yn dystiolaeth o bwysigrwydd parhaus Herman fel arlunydd yng Nghymru ac i Ystradgynlais ymhell ar ôl iddo adael ym 1955.

Yn ddiweddar mae Sefydliad Celf Josef Herman Cymru sydd wedi'i lleoli yn Ystradgynlais wedi cynhyrchu ap, llyfryn, a llwybr yn Ystradgynlais gyda ffocws ar y llefydd oedd yn bwysig i fywyd a chelf Herman a gwnaeth defnyddio ganddo mewn cannoedd o frasluniau a nifer o baentiadau pan oedd yn byw yno ac ar ôl iddo adael hyd ei farwolaeth yn 2000. Cafodd y prosiect ei lansio'r haf hwn a cheir hanes y paentiad *Miners* yn y llwybr treftadaeth hwn.

I gloi'r erthygl hon, gwnaf gynnwys cyflwyniad byr i Josef Herman. Cafodd ei eni yng Ngwlad Pwyl ym 1911 a'i cydnabyddir am ei luniau o lowyr Cymru o Gwm Tawe. Gadawodd Herman Wlad Pwyl ym 1938 a dywedodd ei fam wrtho yn yr orsaf trên, wrth iddo adael 'paid byth â dod yn ôl', mae'n amlwg bod ganddi rywfaint o fewnwelediad cyn yr ail ryfel byd. Ni ddychwelodd Herman i Wlad Pwyl ac yn hynod o drist chollodd ei deulu cyfan yn geto Gwlad Pwyl, cafodd newyddion am hyn trwy'r Groes Goch pan oedd yn byw yng Nglasgow rhwng 1940 a 1944.

Ym 1944 cyrhaeddodd Herman Ystradgynlais am wyliau byr, gyda'i wraig gyntaf Catriona MacLeod, gan ei fod eisiau archwilio bywyd cymuned sy'n gweithio, dywedodd Herman: "I stayed here because I found all I required. I arrived here a stranger for a fortnight; the fortnight became 11 years." Daeth yn rhan fawr o'r gymuned leol lle cafodd y llysenw hoffus 'Joe Bach'. (JHAFC- 2. 2021).

In the 1940s Cartiona and Herman built a studio and home called ‘Catria’ in what had previously been a pop factory and it was in this studio that Herman painted the *Miners* and the *South Wales* paintings. (JHAFC- 1. 2021)

Sefydlwyd Sefydliad Herman yn 2002 ac mae ganddo gasgliad o luniau, paentiadau a phrintiau gwreiddiol Josef Herman (JHAFC- 2. 2021) fe’i cefnogwyd gan Nini Herman (ail wraig Herman) hyd at ei marwolaeth a gan deulu ac ystâd Herman. Rwyf wedi gweithio gyda Sefydliad Celf Herman fel arlunydd ac yn awr fel ymddiriedolwr ac roedd yn wych mynd â grŵp o ddisgyblion ysgol i weld ac ymateb yn greadigol i furlun paneli Glowyr yn y Glynn Vivian yn 2017.

Roedd Mai 2021 yn nodi 70 mlynedd o'r adeg y cafodd y paentiad ei arddangos am y tro cyntaf yng Ngŵyl Prydain. Ac mae'n debyg mewn byd nad yw'n bandemig y byddai Sefydliad Celf Josef Herman Cymru wedi trefnu digwyddiad cyhoeddus coffaol i nodi'r achlysur hwn.

Llyfryddiaeth

Biography.wales. (2021). ‘Bell, Ernest David (1915 - 1959), artist and poet’, *Dictionary of Welsh Biography*. [ar lein] Ar gael ar: <https://biography.wales/article/s2-BELL-DAV-1915> (Cyrchwyd Awst2021).

British Museum (dd.) *Josef Herman*. [ar lein] Ar gael ar https://www.britishmuseum.org/collection/term/BIOG31325 (Cyrchwyd Awst 2021)

Flower’s Gallery (dd.) *Josef Herman (CV)* [ar lein] Ar gael ar https://www.flowersgallery.com/usr/library/documents/main/34/josef-herman-cv.pdf (Cyrchwyd Gorffennaf 2021)

Fulltable.com. (2021) *Festival of Britain, Sixty Paintings for '51, Chris Mullen Collection.* [ar lein] Ar gael ar: <https://www.fulltable.com/vts/f/fbt/pa.htm> (Cyrchwyd Awst 2021).

Glynn Vivian Archive (dd.) *Miners 1951*. [ar lein] Ar gael ar https://www.glynnvivian.co.uk/collections/collection-highlights/josef-herman-1911-2000/ (Cyrchwyd Gorffennaf 2021)

Herman J. (1975) *Related Twilights Notes from an Author’s Diary.* London: Robson Books Ltd.

Herman, J. (c.1951) *Study for ‘South Wales’ (Notes from a Welsh Diary)* [ar lein] Ar gael ar https://www.tate.org.uk/art/archive/items/tga-835-106/herman-study-for-south-wales-notes-from-a-welsh-diary (Cyrchwyd Gorffennaf 2021)

JHAFC- 1. (2021). *Heritage Trail - Josef Herman Foundation*. [ar lein] Ar gael ar <http://josefhermanfoundation.org/heritage-trail/> (Cyrchwyd Awst 2021).

JHAFC- 2. (2021). *Josef Herman - Josef Herman Foundation*. [ar lein] Ar gael ar <http://josefhermanfoundation.org/about/josef-herman/> (Cyrchwyd Awst2021).

V&A- Victoria and Albert Museum (dd.) *The Festival of Britain*. [ar lein] Ar gael ar https://www.vam.ac.uk/articles/the-festival-of-britain (Cyrchwyd Gorffennaf 2021)

Wakelin. P (2018) *Then and now: 80 years of collecting contemporary art for Wales.* [ar lein] Ar gael ar: https://artuk.org/discover/stories/then-and-now-80-years-of-collecting-contemporary-art-for-wales (Cyrchwyd Gorffennaf 2021)

Lluniau

Ffigur 1 Herman, J. (1951) *Miners.* [Ole war fwrdd] Casgliad Oriel Gelf Glynn Vivian. Defnyddir gyda chaniatâd © The estate of Josef Herman.

Ffigur 2 Beynon, G. (2017) *Disgyblion Ysgol yn yr Oriel, Prosiect ysgolion Josef Herman 2017.* Casgliad Personol.

Ffigur 3 Herman, J. (1950). 'Study for South Wales 1951 (1950) Tate Collection & Page of Notes for the 1951 Mural for the Festival of Britain.' From Herman J.(1988) *Notes from a Welsh Diary* London: Free Association Books (Page 32 A & B) Defnyddir gyda chaniatâd © The estate of Josef Herman.

Ffigur 4. Herman, J. (c.1951) *Study for 'South Wales' (Notes from a Welsh Diary)* [ar lein] *Available at* https://www.tate.org.uk/art/archive/items/tga-835-106/herman-study-for-south-wales-notes-from-a-welsh-diary (Cyrchwyd Gorffennaf 2021) Defnyddir gyda chaniatâd © The estate of Josef Herman.

Ffigur 5 attributed to Llew E Morgan (c.1950-51) *Herman in the studio*. Casgliad Preifat. Defnyddir gyda chaniatâd ©Llew E. Morgan Estate